

**Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015–2030**  
**ARCHWILIAD CYHOEDDUS**

**Mater 10 Sesiwn y Gwrandawriad**  
**Dydd Mawrth 11 Mai 2021**

**Mater 10 Gweithredu Datblygu Cynaliadwy**  
**Polisiâu Rheoli Datblygu – Creu lleoedd a chymunedau**  
**cynaliadwy;**

**PC1 Perthynas y Datblygiad i Ffiniau Aneddiadau**  
**PC2 Gofynion Cyffredinol ar gyfer Datblygu**  
**PC3 Dylunio**  
**PC4 Cynaliadwyedd a Chadernid Datblygiad Newydd**  
**PC5 Cludiant a Hygyrchedd**  
**PC6 Teithio Llesol**  
**PC8 Parth Diogelu Maes Awyr**  
**PC10 Cynlluniau Cludiant Newydd**

**Datganiad Gwrandawriad gan Gyngor Sir y Fflint**

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 – 2030) Archwiliad Cyhoeddus

## Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 10: Gweithredu Datblygu Cynaliadwy

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir y Fflint (CSyFf) mewn ymateb i gwestiynau gwrandawriad yr Arolygwyr:

**Mater Allweddol: A yw'r polisiau a'r cynigion ar y mater yn cyflawni amcanion perthnasol y CDLI mewn modd cynaliadwy sy'n gyson gyda pholisi cenedlaethol? A ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth cadarn a chredadwy?**

- 1. Ymateb y Cyngor:** Y Polisiau Rheoli Datblygu sy'n ymwneud â'r themâu 'Creu Mannau a Chymunedau Cynaliadwy' yw'r polisiau manwl sy'n cefnogi polisiau strategol STR1 i STR6. Mae'n bwysig bod y polisiau yn yr adran hon yn cael eu darllen ar y cyd â'r cynllun cyfan. Mae'r polisiau hyn yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac amcanion creu lleoedd a nodir o fewn PPW11 ac yn rhan bwysig o'r fframwaith a ddyluniwyd i gyflawni'r amcanion a nodir o fewn y CDLI. Yn benodol bydd gweithrediad y gofynion ym mholisiau PC1 i PC12, yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

Amcan 3. Hyrwyddo system gludiant gynaliadwy a diogel sy'n lleihau dibyniaeth ar y car

Amcan 4. Hwyluso'r ddarpariaeth o gludiant, cyfleustodau ac isadeiledd cymdeithasol/ cymunedol angenrheidiol.

Amcan 7. Creu lleoedd sy'n ddiogel, yn hygyrch ac annog a chefnogi iechyd, lles a chydarddoldeb da.

Amcan 12. Sicrhau bod datblygiad tai yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy lle mae safleoedd yn hyfyw ac yn gyflawnadwy ac yn cael eu cefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol angenrheidiol.

Amcan 13. Hyrwyddo a gwella economi wledig amrywiol a chynaliadwy.

Amcan 18. Hyrwyddo dyluniad da sydd yn unigryw yn lleol, yn arloesol ac yn sensitif i'r lleoliad.

- 2.** Mae'r polisiau Rheoli Datblygiad 'Creu Mannau a Chymunedau Cynaliadwy', ynghyd â'r polisiau strategol yn darparu fframwaith lle gall y Cynllun gyflawni canlyniadau creu lleoedd a datblygu cynaliadwy. Gyda'i gilydd maent yn ceisio gwella lles cymunedau trwy ddatblygiadau priodol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion creu lleoedd a nodir o fewn canllawiau cenedlaethol. Mae paragraff 3.1 y PPW11

yn amlygu pwysigrwydd o sefydlu egwyddorion creu lleoedd ar ddechrau'r broses o ffurfio polisi. Mae polisiâu PC1 i PC12 yn sicrhau bod dyluniad datblygiadau newydd, yn ogystal; â'r effaith ar fywyd bob dydd yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau. Yn benodol, mae polisiâu PC1 i PC4 yn seiliedig ar egwyddorion sylfaenol creu lleoedd, datblygu cynaliadwy a dyluniad da a nodir o fewn canllawiau cenedlaethol.

3. Mae'r thema Mannau Actif a Chymdeithasol yn PPW11 yn cyfrannu tuag at y saith nod lles fel y nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae polisiâu PC1 i PC12 wedi'u halinio yn agos gyda PPW11 ac yn ceisio lleoli a dylunio datblygiadau newydd fel eu bod yn lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir preifat ac yn hyrwyddo dewisiadau cludiant cynaliadwy. Cefnogir y polisiâu cludiant PC5 i PC11 gan sail dystiolaeth gadarn gan gynnwys [Cynllun Glannau Dyfrdwy](#), [Cynllun Cludiant Lleol](#), [Teithio Llesol](#), a chyfres o [Chynlluniau Gwella Prifffyrdd Strategol](#).
4. Mae'r canlynol yn grynodedb byr o bob polisi sy'n cael eu harchwilio a sut maent yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol, ac yn amlygu rhai o'r materion a godwyd gan wrthwynebwyr;
5. Mae Polisi PC1 yn nodi perthynas y datblygiad i ffiniau'r anheddiad gan sefydlu rhagdybiaeth gyffredinol o fewn, ac yn amlygu'r angen i ddiogelu cefn gwlad agored rhag datblygiadau amhriodol trwy ddiffinio'r eithriadau i ddatblygiadau caniatool tu allan. Mae'r eithriadau datblygu hyn yna'n cael eu codi gan eu canllawiau polisi penodol eu hunain. Mae'r dull hwn yn unol â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 3.60 PPW11 i reoli datblygiad o fewn cefn gwlad agored. Nid yw mwyafrif y gwrthwynebiadau i'r polisi hwn ar y cam i'w archwilio gan y cyhoedd yn gwrthwynebu dibenion y polisi fel a'i ysgrifennwyd, ond yn ceisio estyniad o ffiniau anheddiad penodol i gynnwys safleoedd amgen nad ydynt wedi cael eu dynodi o fewn y cynllun. Yn ogystal â hynny, mae rhai sylwadau yn ceisio tynnu safleoedd dynodedig o ffin anheddiad er mwyn rhwystro datblygiad. Mae Datganiad Gwrandawriad Mater 4 y Cyngor [Mater 4 M4.01](#) delio â materion penodol mewn perthynas â ffiniau anheddiad. Mae nifer fechan o wrthwynebiadau wedi cael eu gwneud i eiriad y polisi ei hun, gan ei ddisgrifio yn 'amwys', fodd bynnag mae'r gwrthwynebiad ei hun yn amwys gan ei fod yn gwneud cais am fwy o gwmpas i ymestyn 'cyfleusterau' tu hwnt i ffiniau anheddiad, heb ddiffinio yr hyn a olygir gan 'gyfleusterau'. Felly, mae'n anodd deall y pwynt sy'n cael ei wneud. Dylid darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd, ac mae polisi PC1 yn amlwg yn cyfeirio at bolisiâu eraill yn y cynllun lle darperir canllawiau ar fathau penodol o ddatblygiad a all gael eu caniatáu tu allan i ffiniau anheddiad.
6. Mae PC2 yn nodi gofynion cyffredinol ar gyfer datblygu, gan ddarparu un pwynt cyfeirio ar gyfer meini prawf a ddefnyddir yn aml a thynnu'r angen i ailadrodd y gyfres o feini prawf cynaliadwyedd mewn polisiâu manwl eraill o fewn y cynllun. Mae'n bwysig bod y polisi hwn yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r cynllun yn ei

gyfanwydd, ond yn arbennig gyda pholisïau PC3 a PC4, sy'n rhoi canllawiau pellach ar ddyluniad a chadernid datblygiadau newydd. Gyda'i gilydd mae'r polisïau hyn yn unol ag egwyddorion sylfaenol y thema Mannau Actif a Chymdeithasol PPW11. Mae gwrthwynebwyr wedi codi materion gyda geiriad PC2, "dylid, lle bo'n briodol" ac wedi mynegi pryderon nad oes angen y polisi gan fod y materion yn cael eu cynnwys mewn polisïau manwl a strategol eraill o fewn y cynllun. Nid yw'r Cyngor yn derbyn y gwrthwynebiadau hyn gan fod y geiriad "dylid, lle bo'n briodol" yn sicrhau bod y meini prawf perthnasol yn unig yn gymwys i ddatblygiadau. Mae'r polisi yn nodi meini prawf cynaliadwyedd pwysig er mwyn sicrhau bod y datblygiadau yn cyfrannu tuag at egwyddorion sylfaenol PPW11 a thuag at y saith nod lles fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Felly mae'n angenrheidiol yn ogystal â pholisïau eraill o fewn y cynllun. Nid yw'r Cyngor yn ystyried eu bod yn dyblygu materion a nodir o fewn polisïau eraill, ond yn darparu canllawiau perthnasol i sicrhau mai dim ond datblygiadau cynaliadwy a chryf sy'n digwydd. O ran cynaliadwyedd a chreu lleoedd, ni ddylid ystyried yr egwyddorion hyn yn amodol, fel y mae rhai gwrthwynebwyr yn ceisio hyrwyddo. Mae gwrthwynebwyr hefyd wedi codi pryderon na fydd rhai safleoedd cyflogaeth a phreswyl dynodedig yn cydymffurfio â'r polisi hwn, yn benodol safle strategol Warren Hall. Bydd polisi PC2 yn sicrhau bod datblygiad Warren Hall yn cael ei wneud mewn modd cynaliadwy, gan leihau unrhyw effeithiau niweidiol posibl trwy gynllun a dyluniad gofalus.

7. Mae PC3 yn darparu canllawiau dylunio cyffredinol ar gyfer datblygiadau newydd. Mae paragraff 3.3 PPW11 yn pwysleisio pwysigrwydd dyluniad da i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae meini prawf polisi PC3 yn alinio'n agos gydag amcanion dylunio da fel y nodi o fewn ffigwr 8 PPW11, i sicrhau bod datblygiadau newydd yn Sir y Fflint yn gynaliadwy. Mae gwrthwynebiadau wedi codi o ran hyblygrwydd y geiriad o dan paragraff 9.8 y cyfiawnhad rhesymedig o dan bolisi PC3, mae'r gwrthwynebydd yn ystyried y dylai'r testun gael ei newid mewn perthynas ag ardaloedd cyflogaeth er mwyn galluogi cynlluniau mwy nad ydynt yn adlewyrchu graddfa bresennol yr adeiladau cyfredol. Mae'r Cyngor yn ystyried bod hyblygrwydd o fewn y polisi a'r cyfiawnhad rhesymedig i benderfynu ar geisiadau sy'n cynnwys defnydd cyflogaeth, trwy ddefnyddio'r geiriad "dylid, lle bo'n briodol". Mae'r polisi yn cynnwys holl gynigion datblygu felly nid oes angen cyfeirio ar ardaloedd cyflogaeth yn benodol. Bydd manylion pellach yn cael eu darparu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol Dylunio i fynd i'r afael â materion dylunio a graddfa o fewn ardaloedd cyflogaeth.
8. Yn ogystal â hynny, cododd Gwrthwynebydd arall bryderon bod geiriad PC3 yn rhy gyffredinol ac nad oedd posib ei weithredu, yn arbennig meini prawf e.) y gofod o amgylch anheddau a g.) corffori systemau draenio cynaliadwy. Bydd y Cyngor yn darparu mwy o fanylion ar y ddau fater hyn trwy CCAau. Fel yr eglurwyd yn y [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3](#), mae gan Ganllawiau Cynllunio Atodol rôl allweddol i ddehongli ac ymestyn ar bolisïau cyffredinol, gallent ddarparu manylion rhifol a all newid yn ystod oes CDLI ac felly gellir eu diweddarau yn haws os ydynt yn cael eu cadw ar gyfer eu cyhoeddi o fewn CCA.

Nid yw'r diffyg manylion o fewn y polisi cyffredinol yn lleihau gwerth y polisi nac yn golygu nad ellir ei weithredu. Hefyd, ni fwriedir i'r polisi fod yn ganllaw i ddatblygwyr yn unig, trwy ddarparu rhestr wirio ar gyfer holl ofynion dylunio. Bwriedir iddo fod yn ganllaw i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i feirniadu rhinweddau dylunio y cynnig datblygu. Yr her i ddatblygwyr yw defnyddio lefel ddigonol o greadigrwydd i ddylunio datblygiadau newydd, wedi'u llywio gan bolisiâu'r cynllun, er mwyn atal mwy o ganlyniadau rhagweladwy sy'n cynhyrchu datblygiadau llyfr patrwm nad ydynt yn ysbrydoli. Yn unol ag Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2020, sy'n gofyn i ddraenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer Draenio Cynaliadwy, dylai datblygwyr ymgysylltu'n llawn â'r ddarpariaeth o systemau draenio cynaliadwy ar safleoedd gyda dau neu fwy o anheddau neu sydd dros 100m<sup>2</sup> o ardal adeiladu, gan roi ystyriaeth glir i ddyluniad a chynllun yr isadeiledd draenio fel rhan o'u cais cynllunio. Felly ni ystyrir maen prawf d yn rhy gyffredinol nac yn un na ellir ei weithredu.

9. Mae PC4 yn ymwneud â chynaliadwyedd a chadernid datblygiadau newydd. Mae gwrthwynebwyr wedi amlygu pwysigrwydd gorfodi polisi PC4 a'r angen i holl dai newydd ddefnyddio ffynonellau ynni cynaliadwy. Mae PPW11 yn cydnabod rôl pwysig sydd gan y System Gynllunio i leihau'r galw am ynni a hyrwyddo mesur arbed ynni o fewn adeiladau newydd, fodd bynnag nid yw'n gosod gofyniad i bob cartref newydd gorffori ynni adnewyddadwy fel y gofynnir gan y gwrthwynebwyr. Er gwaethaf hyn, mae polisi EN12, er enghraifft, yn ceisio sicrhau bod datblygiadau graddfa mawr yn gwneud y mwyaf o'r posibiladau ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae effeithlonrwydd ynni anheddau newydd wedi ei gorffori yn y Rheoliadau Adeiladu cyfredol.
10. Mae PC5 yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygiadau newydd yn cael eu hasesu yn nhermau hierarchaeth cludiant cynaliadwy fel y nodir yn ffigur 9 PPW11, gan leihau'r angen i deithio gyda cherbydau modur preifat a gwneud y mwyaf o deithio llesol megis cerdded a beicio yn y lle cyntaf. Mae gwrthwynebwyr wedi codi pryderon o ran meini prawf y polisi hwn, yn arbennig maen prawf d a'r gofyniad i 10% o ofodau parcio gael pwyntiau gwefru trydan. Mae cwestiwn c.) yn nodi'r ymateb i hyn, ond yn gryno ymddangosir bod y gwrthwynebydd wedi camddarllen y polisi gan ei fod yn gwneud cais am ddatblygiad preswyl, ac mae'r maen prawf yn ei gwneud yn eglur bod hyn yn gymwys i ddatblygiadau nad ydynt yn rhai preswyl.
11. Mae PC6 yn hyrwyddo teithio llesol o fewn datblygiadau newydd yn unol â'r gofynion a nodir o dan baragraffau 4.1.31 i 4.1.33 PPW11. Mae gwrthwynebydd wedi codi pryderon o ran geiriad y polisi hwn a'r angen am fwy o hyblygrwydd. Nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu cynnwys y geiriau "lle bynnag bosibl" ar ôl "dylid" yn llinell gyntaf y polisi. Derbynnir nad yw meini prawf PC6 yn gymwys i holl ddatblygiadau, yn arbennig datblygiadau gwledig llai, felly gall y geiriau ychwanegol arfaethedig hyn ychwanegu hyblygrwydd i'r polisi i fynd i'r afael â chynlluniau o'r fath. Mae gwrthwynebydd hefyd wedi mynegi nad all y safle

strategol yn Warren Hall fodloni gofynion y polisi hwn, ond nid yw'n mynd i fwy o fanylion, nac yn nodi sut ac ym mha faen prawf y byddai'n 'methu'. Gall safle Warren Hall gysylltu â llwybrau Teithio Llesol a fydd yn darparu cysylltiad addas i anheddau gerllaw.

12. Yn unol ag ail gainc hierarchaeth cludiant cynaliadwy PPW11 (Ffigwr 9), mae PC7 yn ceisio annog y defnydd o gludiant cyhoeddus trwy leoliadau a graddfa datblygiadau newydd.
13. Mae Polisi PC8 yn rhoi mewn grym parth diogelu maes awyr o amgylch Maes Awyr Penarlâg yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae gwrthwynebydd wedi codi pryderon bod paragraff 9.24 y cynllun angen cael ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn fwy cyson gyda pholisi cenedlaethol ac yn egluro gweithdrefnau ymgynghori yn well. Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i gynnwys y geiriad ychwanegol hyn.
14. Mae PC9 yn ceisio diogelu llinellau rheilffyrdd na ddefnyddir rhag datblygiadau a fyddai'n mynd yn erbyn eu hailddefnyddio ar gyfer dibenion teithio llesol megis cerdded a beicio, neu ar gyfer eu hailddefnyddio fel llinell ar gyfer dibenion rheilffordd ysgafn. Cefnogir y dull hwn gan baragraff 5.3.8 PPW11, sydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y mae cyfraniad llinellau rheilffordd na ddefnyddir yn ei gael tuag at isadeiledd gwyrdd a thwristiaeth (paragraff 5.5.5).
15. Mae PC10 yn diogelu nifer o gynlluniau cludiant newydd fel y dangosir ar y map cynigion. Bydd llinell y llwybrau dynodedig hyn yn cael eu diogelu rhag ddatblygiadau a fyddai'n mynd yn erbyn gwelliannau cludiant cynlluniedig o fewn Sir y Fflint. Mae'r holl gynlluniau hyn wedi'u rhaglennu neu eu rhestru mewn strategaethau cludiant priodol sydd wedi'u cymeradwyo. Mae hyn yn cyferbynnu â gwrthwynebiad i'r diffyg cynhwysiant o safle ar gyfer gorsaf newydd yn Maes Glas, fodd bynnag nid yw'r syniad hwn wedi bod trwy brofion dichonoldeb ac heb ei nodi mewn unrhyw gynllun na strategaeth cludiant.
16. Mae PC11 yn ceisio gwella rôl cludiant a chyflogaeth yn Nociâu Mostyn ond hefyd yn diogelu Aber Afon Dyfrdwy rhag niwed yn nhermau ecoleg, tirlun a llygredd yn unol â pharagraff 5.3.16 PPW11. Nid oes unrhyw wrthwynebiadau wedi codi yn erbyn y polisi hwn.
17. Mae PC12 yn hyrwyddo datblygu cyfleusterau cymunedol newydd mewn lleoliadau priodol ac yn ceisio diogelu rhai presennol yn unol â'r egwyddorion a nodir o fewn thema Actif a Chymdeithasol PPW11.

**Cwestiwn a) A yw cymeriad arbennig yr Wyddgrug wedi cael ei ystyried yn ddigonol wrth lunio ffiniau/hierarchaeth anheddiad?**

**a.1 Ymateb y Cyngor:** Do. Mae'r Cyngor yn amlinellu'r dull ar gyfer diffinio hierarchaeth aneddiadau yn ei ymateb i gwestiwn 8 ac i ddiffinio ffiniau aneddiadau yng nghwestiwn 11 yng Nghwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd

[FCC001](#). Mae'r Wyddgrug bob amser wedi bod yn haen uchaf yr aneddiadau yng Nghynllun Fframwaith Clwyd trwy Gynllun Lleol Delyn a'r CDU. Mae'r CDLI yn mabwysiadu dull cyson gan fod yr [archwiliad aneddiadau](#) a gwaith hierarchaeth aneddiadau yn y ddogfen [Negeseuon Allweddol](#) yn dangos yn glir bod yr Wyddgrug yn bodloni'r meini prawf haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau, ynghyd ag aneddiadau eraill a nodir o fewn Haen 1.

- a.2 Yn ystod camau cyntaf paratodau'r Cynllun, cyflawnodd y Cyngor adolygiad cadarn o'r hierarchaeth aneddiadau o fewn y CDU mabwysiedig. Cafodd hyn ei lywio gan arolwg cynhwysfawr ac asesiad o 72 o aneddiadau o'r enw [archwiliadau aneddiadau](#). Roedd y broses yn cynnwys edrych ar gymeriad a rôl holl aneddiadau Sir y Fflint, gan nodi nodweddion 'arbennig' a fyddai'n nodi eu safle o fewn yr hierarchaeth aneddiadau arfaethedig. Roedd yr archwiliad aneddiadau wedi amlygu bod gan yr Wyddgrug nifer sylweddol o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol i gynnig sy'n cyfiawnhau ei safle o fewn Haen 1 yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy. Mae hanes yr Wyddgrug, sy'n rhan hanfodol o gymeriad y dref wedi'i nodi'r glir o fewn sylwadau'r [archwiliad aneddiadau](#), ac wedi cael ei ystyried yn ofalus fel rhan o'r hierarchaeth aneddiadau.
- a.3 Cafodd y gyfres ddechreuol o archwiliadau aneddiadau eu cyhoeddi i aelodau etholedig ac i Gynghorau Tref a Chymuned yn 2015 i wahodd sylwadau ar gynnwys pob dogfen, fel yr eglurir yn adran 8 yr [Adroddiad Ymgynghori](#). Roedd canlyniadau a chanfyddiadau yr archwiliadau aneddiadau yn llywio datblygiad yr hierarchaeth aneddiadau, gan gynnwys nodweddion yr Wyddgrug sy'n ei osod fel anheddiad Haen 1. Yn dilyn ymgynghoriad ar ddogfen [Negeseuon Allweddol](#), cyhoeddodd y Cyngor [Gynodeb o Sylwadau ac Ymatebion](#) ac nid oedd yn cynnwys unrhyw sylwadau oedd yn gwrthwynebu categoraiddio'r Wyddgrug fel anheddiad Haen 1.
- a.4 Mae'r Wyddgrug yn dref fywiog sy'n ganolfan weinyddol ar gyfer y Sir ac mewn lleoliad da o ran cysyniad triongl twf Wrecsam, Caer a Glannau Dyfrdwy yn yr hen Gynllun Gofodol Cymru ac egwyddor Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel canolbwynt ar gyfer twf yn y FfDC drafft. Ni ystyried bod yr hierarchaeth aneddiadau a strategaeth ofodol mewn perthynas â'r Wyddgrug yn gwrthwynebu PPW11.
- a.5 Hefyd darperir cyd-destun lleol yng [Nghynllun Tref yr Wyddgrug](#) i ystyried, sy'n cynnwys y cyfnod 2017 i 2030. Nodir y caiff ei gyflwyno fel Cynllun 'Tref' ac nid Cynllun 'Lle'. Mae adran 6 y ddogfen yn nodi gweledigaeth ar gyfer y Wyddgrug a ddaeth o 'Astudiaeth Naws am Le yr Wyddgrug' cynharach yn 2010 a oedd yn datgan *'Erbyn blwyddyn 2025, yr Wyddgrug fydd sbardun economaidd Gogledd Ddwyrain Cymru ac yn gyrchfan poblogaidd ar gyfer ymwelwyr y rhanbarth. Bydd y gymuned leol, eu teuluoedd, ffrindiau a thwristiaid yn gallu mwynhau'r buddion a gynigir gan dreftadaeth y Dref a'i asedau naturiol ac economaidd. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan y profiad siopa a gynigir gan yr amrywiaeth o fusnesau*

*manwerthu, twristiaeth a phroffesiynol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, gan greu cyfoeth o gyfleoedd gwaith newydd*'. Mae Adran 0.7 yn nodi nifer o themâu sy'n cynnwys;

- Tref ddeniadol a ffyniannus,
- Strategaeth ar gyfer twf tai,
- Yr amgylchedd, man agored a chysylltiadau
- Grymuso cymunedau a gwella gwasanaethau

a.6 Mae [Cynllun Tref yr Wyddgrug](#) yn cydnabod yn glir y rhinweddau a chymeriad amrywiol a nodweddiadol y dref, ond mae tôn a gweledigaeth gyffredinol yr Wyddgrug yn un i greu dyfodol cadarnhaol a ffyniannus ar gyfer y dref. Cafodd Cynllun Tref yr Wyddgrug hefyd ei lywio gan [Asesiad Safleoedd Cyfle yr Wyddgrug \(LDP-EBD-OCD4\)](#) cynharach a oedd yn gwerthuso nifer fawr o safleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd tir er mwyn canfod ardaloedd a ffefrir ar gyfer datblygiad, ac roedd yr Astudiaeth yn cynnwys Cyngor Tref yr Wyddgrug. Nid yw'r cyd-destun hwn â chysylltiad gyda'r cysyniad o israddio safle'r anheddiad yn hierarchaeth aneddiadau o Haen 1 Prif Ganolfan Wasanaeth.

a.7 Yn ystod yr ymgynghoriad i'w archwilio gan y cyhoedd, cododd gwrthwynebydd (258) bryderon nad oedd cymeriad 'arbennig' yr Wyddgrug wedi cael ei ystyried fel rhan o ddiffinio safle yr Wyddgrug o fewn yr hierarchaeth aneddiadau a'r dyraniad o ddau safle ar gyfer tai. Nid yw'r gwrthwynebydd yn nodi beth mae'r cymeriad 'arbennig' yn ymwneud ag o a sut all y cymeriad arbennig hwnnw niweidio anheddiad Haen 1. Nid yw'r gwrthwynebydd yn nodi nad oes gan yr Wyddgrug orsaf rheilffordd, ond nid yr Wyddgrug yw'r unig anheddiad Haen 1 heb orsaf rheilffordd, gan nad oes gan Saltney, Cei Connah, Queensferry na Threffynnon chwaith, ac nid yw hyn yn niweidio eu rôl fel canolfannau prif wasanaeth ar gyfer y Sir. Felly mae'r Cyngor yn fodlon bod yr archwiliad aneddiadau wedi nodi yr holl rinweddau angenrheidiol i osod yr Wyddgrug yn gadarn o fewn Haen 1 yr hierarchaeth aneddiadau.

### **Cwestiwn b) A yw'n glir sut mae cynigion yng nghefn gwlad agored yn cael eu trin, yn benodol bod adeilad newydd yn cael ei reoli'n llym?**

**b.1 Ymateb y Cyngor:** Mae polisi PC1 yn ymwneud â pherthynas y datblygiad i'r ffiniau aneddiadau a'r datblygiad o fewn cefn gwlad agored. Mae'r [Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol](#) yn nodi sut cafodd y ffiniau aneddiadau eu hadolygu a'u diffinio ym mharagraffau 3.11 i 3.14, gan ddarparu sail dystiolaeth clir a chadarn i gefnogi eu dynodiad.

b. 2 Mae polisi PC1 yn sefydlu gwahaniaeth clir lle mae rhagdybiaeth gyffredinol o blaid y datblygiad o fewn ffiniau aneddiadau, ond yna'n ceisio rheolaeth lem o ddatblygiadau newydd o fewn cefn gwlad agored yn unol pharagraff 3.60 PPW11. Mae'r polisi yn diffinio'r amgylchiadau cyfyngedig lle gall ddatblygiadau yng nghefn gwlad agored fod yn dderbyniol, ac yn tywys y defnyddiwr cynllun i bolisiau perthnasol eraill o fewn y cynllun lle gall ddatblygiadau o fewn cefn gwlad



agored gael ei ganiatáu o dan amgylchiadau eithriadol megis ar gyfer annedd gweithiwr amaethyddol (HN4-A/B/C/D). Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer datblygiad o fewn cefn gwlad agored ddarparu tystiolaeth cefnogi cadarn i ddangos yr angen ar gyfer y datblygiad o fewn y lleoliad hwn, a bodloni meini prawf llym fel y nodir o fewn bob polisi. Dylid darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd, ac mae polisi PC1 yn amlwg yn cyfeirio at bolisiâu eraill yn y cynllun lle darperir canllawiau ar fathau penodol o ddatblygiad a all gael eu caniatáu tu allan i ffiniau anheddiad.

### **Cwestiwn c) A yw'r gofyniad am bwyntiau gwefru trydan mewn datblygiadau amhreswyl ym Mholisi PC5 yn gyson gyda chanllawiau cenedlaethol?**

**c.1 Ymateb y Cyngor:** Ydi. Mae maen prawf d polisi PC5 yn ceisio darparu lefelau priodol o barcio, ac mewn datblygiadau amhreswyl dylai 10% o ofodau parcio gael pwyntiau gwefru trydan. Mae'r lleiafswm trothwy hwn wedi'i gefnogi gan bolisi 12 Dyfodol Cymru, sy'n datgan "Os darperir maes parcio ar gyfer datblygiadau amhreswyl newydd, dylai awdurdodau cynllunio geisio cael lleiafswm o 10% o ofodau parcio car gyda phwyntiau gwefru cerbydau trydan." Mae paragraff 4.1.40 PPW11 hefyd yn annog y defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel trwy ddarparu pwyntiau gwefru.

**c.2** Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i ddwyn ymlaen diwedd gwerthiant ceir a faniau petrol a disel newydd o 2040 i 2030, neu'n gynt os yw trosglwyddiad sydyn yn ymddangos yn ddichonadwy, felly rhaid i isadeiledd megis pwyntiau gwefru gael eu hintegreiddio i ddatblygiadau newydd rŵan i fod yn barod am y newid sylweddol hwn. Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru](#) ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth ar gyfer gwefru yng Nghymru bod "holl ddefnyddwyr ceir a faniau trydan yng Nghymru yn hyderus bod ganddynt fynediad at isadeiledd gwefru cerbydau trydan pan a lle maent ei angen." Mae'r strategaeth hon yn amlygu bod rhwng 30,000 a 50,000 o bwyntiau gwefru sydyn angen bod ar gael ar draws Cymru dros y ddeng mlynedd nesaf, sydd yn ychwanegol at wefru yn y cartref.